**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 3 EBRILL 2025 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Janet Knott, Jenny Jones, Eifion Jones, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Shan Rees, Meinir James, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas, Philip Davies a Viv Davies

Nododd y Clerc ei fod wedi siarad gyda'r Cyng Viv Davies a'i fod yn disgwyl mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor. Derbyniwyd felly, ymddiheuriadau'r Cynghorydd Davies am fis arall.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed Mawrth 2025.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Derbyniwyd cadarnhad bod apêl wedi ei chyflwyno yn erbyn y Rhybudd Gorfodaeth diwygiedig. Nodwyd.
2. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole –** Cafwyd cadarnhad bod y Tîm Gorfodaeth wedi cael ei gynghori gan Dîm Cyfreithiol y Cyngor Sir i ailgyflwyno'r hysbysiad gorfodi oherwydd nad oedd gan y rhybudd blaenorol a gyflwynwyd i'r garafán brawf digonol o'i ddarpariad. Nodwyd,
5. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
8. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
10. **PL/04973** - **1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Nodwyd nad oedd y cais wedi ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio ar 27ain Mawrth 2025. Roedd disgwyl am wybodaeth bellach.

11. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
12. **Pryderon ynghylch cyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul –** Roedd y Cyngor yn aros am wybodaeth gan GoSafe ar yr arolwg cyflymder a gynhaliwyd yn y lleoliad.
13. **Arwydd 50mya ar yr A484 yn Cherry Trees** – Cafwyd cadarnhad fod yr arwydd wedi gael ei ail-leoli. Nodwyd.
14. **Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau a Cellan – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau** – Nododd y Clerc fod cofnodion y cyfarfod cyntaf wedi eu dosbarthu. Byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn mynychu'r cyfarfod nesaf sy'n cael ei alw ar 15fed Ebrill 2025. Nodwyd.
15. **Parc Solar Heol Ddu** – Bydd Aelodau'n ystyried yr angen i ofyn am ollyngiadau ar gyfer unrhyw fuddiannau canfyddedig sydd ganddynt ac y gallent fod yn briodol i'w datgan cyn bod y Cyngor yn ystyried y mater.
16. **Green Gen** – Nododd aelodau y digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ar 28ain Mawrth. Cytunwyd i ymateb i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:
    - Cais i osod tanddaearu ychwanegol i'w gael ei ystyried yn ychwanegol i'r bwriad presennol;
    - Bod Green Gen yn sicrhau bod trafodaethau llawn yn cael eu cynnal gyda'r partïon datblygu eraill er mwyn darparu gwybodaeth lawn i'r Gymuned ar y cynllun arfaethedig;
    - Cais am wybodaeth i gymharu costau hirdymor tanddaearu a pheilonau;
    - Cais am wybodaeth am ddisgwyliad oes y peilonau a thanddaearu;
    - Cais am wybodaeth ar fesurau diogelwch a fyddai'n cael eu rhoi mewn lle;
    - Cais am wybodaeth am reoli traffig ar dir ac awyr;
    - Cais fod gynllun cyffredinol yn dangos yr holl seilwaith arfaethedig ar draws y prosiectau yn cael ei darparu.
17. **Rhoddion i Wasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser ac Opera Ieuenctid Caerfyrddin –** Derbyniwyd llythyr diolch am roddion y Cyngor. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau Hyfforddi Mawrth – Mehefin. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Rhwystro dros dro i hyd at 15 munud o oedi i gerbydau ddydd Llun 24ain Mawrth 2025 rhwng 09:00 a 15:00 o'r gloch am gyfnod o dri diwrnod ar hyd yr C2057 Cwmbury Road, Glanyfferi. Nodwyd.
3. **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru -** Penderfyniadau Terfynol Adolygiad y Senedd. Nodwyd.
4. **Senedd Cymru -** Adroddiad y Senedd ar Rôl, Llywodraethu ac Atebolrwydd y Sector Cynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
5. **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru –** Ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft De-orllewin Cymru. Nodwyd.

6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwybodaeth am gau ffordd dros dro ar hyd yr U2208 Idole, Caerfyrddin o bwynt 608 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r U2209 Idole, am gyfanswm pellter o 213 metr i gyfeiriad y gogledd orllewin o 09:30 o'r gloch i 15:30 o'r gloch ddydd Llun 10fed Mawrth. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru –** Canllawiau Digidol. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru –** Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol 30ain Ebrill 2025. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru –** Adnewyddu Aelodaeth 2025-26. Cytunwyd adnewyddu Aelodaeth Un Llais Cymru gyda chost o £266.00.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau Ffordd Dros Dro ar hyd yr C2074 ger Cilmarch (SA17 5RB) o bwynt 606 metr i'r De-orllewin o'i chyffordd â'r A484 am bellter o 345 metr i gyfeiriad cyffredinol y De Orllewin ddydd Mercher 25fed Mehefin 2025 rhwng 09:30 a 19:30. Nodwyd.
11. **Archwiliad Cymru –** Hysbysiad Archwilio 2024-25. Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru –** Hysbysiad o wefan newydd. Nodwyd
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin -** Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033. Nodwyd.
14. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchlythyr Calon Tan. Nodwyd.
15. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
16. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
17. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad ar gynnig BT i gael gwared ar ffôn talu Llandyfaelog. Nodwyd bod 22 o alwadau wedi eu gwneud o'r ciosg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y Cyngor felly yn gwrthwynebu'r cynnig.
18. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Adnewyddiad Cynghorau Cymuned a Tref. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. **Mainc Llandyfaelog –** Nodwyd diolch i Star Forge am ddarparu mainc yn Neuadd Llandyfaelog.
2. **Ymweliadau Amwynderau –** Cyflwynodd y Clerc adroddiad ar yr archwiliadau Mwynderau Cymunedol a gynhaliwyd. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r cyflenwr mewn perthynas â'r Paneli Hanes gan eu bod yn dechrau pylu.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Mawrth gyda chyfanswm cost o £616.00 yn cael ei gytuno. Cytunwyd taliad hyn ynghyd â £52.00 ar gyfer deunyddiau.

**9. Adroddiad Cyllid 2024-25**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 4ydd chwarter ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o gofnodion ariannol y Cyngor.

**10. Asesiad Risg 2025-26**

Ystyriodd y Cyngor Ddadansoddiad Risg drafft 2025-26 a gyflwynwyd gan y Clerc. Cytunwyd y ddogfen ddrafft.

**11. Adroddiad Cyflogau Staff a Chontractau 2025-26**

Cytunwyd Cyngor cau allan y cyhoedd â'r wasg o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem oherwydd natur y wybodaeth i drafod.

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a chytunwyd yr eitemau canlynol.

**a) Glanheuwyr Arosfeydd Bysiau**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cadw taliad ar gyfer arosfan bysiau Croesyceiliog fel £120 y flwyddyn.

**b) Atgyweiriwr**

Nodwyd taw yr Atgyweiriwr oedd Michael Leefe gyda thaliad o £23.00 yr awr am y flwyddyn.

**c) Clerc y Cyngor**

Cytunwyd i gadw'r pwynt tâl presennol ar frig y raddfa berthnasol ym mhwynt 23, sef £9,017.84 ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Cyngor dalu lwfans o £26.00 y mis ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn cywmpasi lwfans gweithio cartref CTEM (£26.00 y mis ar hyn o bryd).

Cadarnhaodd y Cyngor y dylid talu'r lwfans teithio angenrheidiol a dalwyd ar gyfradd lwfans milltiroedd CTEM (45c y filltir ar hyn o bryd).

**12. Digwyddiadau Cymunedol 2025**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2025 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (Mehefin) a Blodau (Awst);
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol – Gardd Fach, Mewn Unrhyw Deunydd, dim mwy na Maint A3.
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol – 9fed Mehefin 2025

Trafodwyd barnwr a bydd y Clerc yn cysylltu.

**13. Cynllunio**

1. **PL/09003** - Newid defnydd tir amaethyddol/marchogaeth i ganolfan adar ysglyfaethus (sui generis), gan gynnwys dymchwel adeiladau, adeiladu adardai, arena hedfan, cyfleusterau ymwelwyr (ystafelloedd dosbarth, gofod arddangos, caffi, a siop anrhegion), llety staff, mannau parcio, triniaeth ffiniau, draenio, tirlunio a gwaith cysylltiedig - Pantgwyn, Idole, SA32 8DG. Dim gwrthwynebiadau.

**14. Ceisiadau a Gymorth Ariannol**

1. **Urdd Gobaith Cymru –** Apêl Cronfa i Bawb. Derbyniwyd gwybodaeth am gefnogaeth i bobl ifanc Sir Gaerfyrddin. Cytunwyd ar gyfraniad o £25.00.
2. **CFfI Llanismel – Datganodd y Cyng Rheinallt Jones, Jenny Jones ac Eifion Jones eu diddordeb.** Cytunwyd gyfraniad o £200.00.
3. **SSAFA –** Bydd y Clerc yn gofyn am wybodaeth am y gefnogaeth a ddarperir yn lleol.

**15. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| | | |
|---|---|---|
| **1. Cyngor Sir Caerfyrddin** | **£2,741.18** | Goleuadau ffordd cerdded 2024-25 £2,284.32 gyda TAW |
| **2. Un Llais Cymru** | **£266.00** | Tanysgrifiad 2025-26 Gweler eitem 6.9 |

| 3. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Mawrth a costau | £722.05 | £26.00<br>£7.00<br>£17.65<br>£22.05 | £794.75 | £298.60 | | £496.15 |

| | | |
|---|---|---|
| **4. Cyllid a Tollau EM** | **£919.00** | Ionawr - Mawrth |
| **5. Michael Leefe** | **£668.00** | Atgyweiriwr Mawrth (gweler eitem 8) |
| **6. CFfI Llanismel** | **£200.00** | Rhodd (gweler eitem 14.2) |
| **7. Urdd Gobaith Cymru** | **£25.00** | Rhodd (gweler eitem 14.1) |

**16. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd problemau gyda cau ffyrdd ac arwyddion yn Heol Nantyglasdwr gyda cherbydau ddim yn dilyn y cau'r ffordd. Roedd nawr yn credu fod y mater bellach wedi ei liniaru.
2. Nodwyd noson tip-it ar gyfer dydd Sadwrn 5ed Ebrill er budd Sioe Llandyfaelog.
3. Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad ar symud y sgip gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon ym Mhencady.
4. Nodwyd bod golau troedffordd allan ger Neuadd Llandyfaelog.
5. Nodwyd mater gyda'r cyswllt Cymraeg / Saesneg ar wefan y Cyngor.

**Cynhelir cyfarfod nesaf a Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ddydd Iau 1af Mai 2025.**